## Gweddi Grawys Esgobaeth Llanelwy 2025

Dduw Sanctaidd, Greawdwr pawb,
mae'r cread cyfan yn tystio i'th obaith;
wrth i'r tymhorau newid, daw egin bywyd newydd
o bopeth a gwympodd.

Iesu Sanctaidd, Waredwr pawb,
mae dy freichiau ar led i gynnig gobaith i bawb sy'n baglu
trwy dreialon y byd hwn;
dechreuadau newydd i gael hyd i ffordd trwy bopeth sydd wedi torri.

Ysbryd Sanctaidd, Gynhaliwr pawb,
rwyt ti yn ein harwain â gobaith mewn teyrnas syn enhagu'n barhaus;
boed i ni ddod yn lampau dy obaith
wrth i ni geisio rhannu cariad di-drai Duw
yn Iesu Grist ein Harglwydd. Amen

*Cyfansoddwyn gan Archddiacon Hayley*

Arglwydd Iesu, fel y galwaist Mair Magdalen i fod yn dyst cyntaf i'r Atgyfodiad, rhyddha ni rhag y gwahaniaethu a'r rhagfarn a ddangoswyd yn erbyn menywod ar hyd y canrifoedd. Helpa'r Eglwys i fod yn gymuned o wragedd a dynion, sy'n cydnabod gwaith yr Ysbryd Glân yn gyfartal yn ein bywydau. Amen

Addasiad o An Easter Book of Days gan Gregory K Cameron








Neilltuir **DYDDIAU'R CYDGORDIAU** ar gyfer gweddïo dros alwedigaethau a thros y rhai sy'n gwasanaethu'r eglwys mewn gwahanol weinidogaethau. Yn draddodiadol, mae'r rhain yn cael eu cadw ar ddyddiau Mercher, Gwener a Sadwrn yn yr wythnosau cyn Trydydd Sul yr Adfent, Ail Sul y Grawys, ar ôl y Pentecost ac yn nhrydedd wythnos (litwrgaidd) mis Medi.

Gallwch ddefnyddio'r ddalen hon i fyfyrio ac i weddïo yn ystod **DYDDIAU'R CYDGORDIAU** eu hunain, yn ystod cyfnodau sefydlu, ordeinio a thrwyddedu, ar eich pen eich hun neu gyda phobl eraill, yn eich eglwys neu yn eich Ardal Genhadaeth.

Dduw Hollalluog, nertha bawb ohonom sy'n gweinidogaethu yn dy eglwys a chynnal ni fel y gallwn, yn holl amrywiaeth ein galwad, hyrwyddo dy deyrnas yn y byd, trwy Iesu Grist ein Harglwydd, Amen.



## GALWEDIGAETH

**Mae yna amrywiaeth eang o alwedigaethau ordeiniedig a lleyg sydd, ar ôl dirnadaeth a hyfforddiant, yn galluogi gweinidogaeth gydweithredol i ddigwydd mewn llawer o gyd-destunau ar draws ein hesgobaeth. Am ragor o wybodaeth ewch i**
**https://dioceseofstasaph.org.uk/vocations-and-ministry**




**Rhai o'n caplaniaid sy'n gweithio yn yr esgobaeth, Debbie Sawyer (Caplan Maes Awyr) a Jo Bowles (Caplan Heddlu)**

### GWEDDÏWN

ARGLWYDD IESU, TI YW'R ATGYFODIAD A'R BYWYD. HELPA NI I GANFOD BYWYD NEWYDD YNOT TI. RHYDDHA NI O'R FFAELEDDAU A'R PECHODAU A ALL EIN CAETHIWO, A DANGOS I NI GYFLAWNDER BYWYD TRAGWYDDOL. DYSGA NI I GEISIO DY GYMORTH HYD YN OED DAN YR AMGYLCHIADAU ANODDAF A DYRO FFYDD YN RHODD I NI. AMEN.

ADDASIAD O AN EASTER BOOK OF DAYS
GAN GREGORY K CAMERON





## GWEDDÏWCH

- Dros y rhai sy'n ystyried eu galwedigaeth ar hyn o bryd a'n tîm o Ymgynghorwyr Galwedigaethau.
- Dros alwedigaethau i'r weinidogaeth ordeiniedig o blith ymgeiswyr iau, a thros y rhai a fydd yn arwain dy eglwys yn y dyfodol wrth i ni wynebu ymddeoliad cyfran helaeth o'n clerigion.
- Dros alwedigaethau i'r gweinidogaethau lleyg trwyddedig mwy newydd - efengylwr, darllenydd, caplan bugeiliol, caplan ieuenctid a phlant.
- Dros gynnydd mewn ymrwymiad i ddisgyblaeth ac aeddfedrwydd Cristnogol.
- Dros holl bobl Dduw mewn eglwysi ledled ein hesgobaeth wrth i ni geisio gwasanaethu Duw mewn sawl cyd-destun - yn y gwaith, yn y cartref, yn y gymuned, yn yr eglwys.
- Dros y rhai'n archwilio ac yn ymarfer gweinidogaeth wedi'i chomisiynu.
- Ymgeiswyr a fydd yn mynychu Paneli Dirnadaeth Taleithiol, Cam 1 a Cham 2, eleni a'r rhai a fydd yn cychwyn eu hyfforddiant yn Athrofa Padarn Sant ym mis Awst.

### Y RHAI SY'N PARATOI I GAEL EU HORDEINIO I URDD SANCTAIDD OFFEIRIAD YN 2025

Pam Hallam (Offeiriad)

### Y RHAI SY'N CAEL EU HYFFORDDI I FOD YN WEINIDOGION LLEYG TRWYDDEDIG YN 2025

Mark Cooke (Caplan)
Lucy Farrar (Caplan)

### Y RHAI SYDD O DAN HYFFORDDIANT AR HYN O BRYD HEFYD

Rob Dawson (Offeiriad)
Elin Douglas-Jones (Offeiriad)
Cheryl Hesketh (Offeiriad)
Sarah Namirembe (Offeiriad)
Victoria Stait (Offeiriad)
Paul Tipney-Hicks (Offeiriad)

### Y RHAI SY'N PARATOI I GAEL EU HORDEINIO I URDD SANCTAIDD DIACON YN 2025

David Dobbs (Offeiriad)
Jampa King (Offeiriad)
Sharon Morgan (Offeiriad)
Ian Williams (Diacon)
Glyn Wise (Offeiriad)




Mark Cooke a Lucy Farrar sy'n cael eu hyfforddi i fod yn Gaplaniaid Bugeiliol

